# Cylchlythyr

Ionawr 2024

BHNOG




## Cynhadledd BHNOG 2022

Rydym yn cynnal cynhadledd rithwir BHNOG ar ddydd Llun 11 Mawrth rhwng 10.00am – 16.00pm. Bydd y gynhadledd yn cefnogi lansio Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru 2024, ac yn canolbwyntio ar y tri nod strategol allweddol yn y cynllun. Bydd amrywiaeth o gyflwyniadau diddorol ac addysgiadol yn trafod meysydd pwnc, fel sut y gall hemocromatosis genetig (GH) gefnogi cyflenwad gwaed, cydsyniad cleifion, ac amrywiaeth y panel rhoddwyr.

## Cyflwyno Posteri

Fel rhan o'r gynhadledd, hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i wahodd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gyflwyno posteri. Mae canllawiau llawn ynghylch cyflwyno posteri ar gael yn: [https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2023/11/BHNOG-conference-2024_abstract-poster-guidance.pdf](https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2023/11/BHNOG-conference-2024_abstract-poster-guidance.pdf)

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at dderbyn eich crynodebau. Dylid eu hanfon drwy e-bost at wbs.bloodhealthteam@wales.nhs.uk gyda'r

pennawd pwnc ‘**BHNOG conference 2024 abstract submission’** erbyn **5pm ar ddydd Gwener 26 Ionawr 2024.**

## Posteri Addysgol ar Waed Wedi’i Arbelydru a CMV







Crëwyd y posteri addysgol hyn i gynyddu ymwybyddiaeth o'r defnydd o ofynion arbennig wrth drallwyso. Fe'u cymeradwywyd gan BHNOG ym mis Rhagfyr, a byddant yn cael eu dosbarthu i bob Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2024.

## Polisi IABT (Independent Authorisation of Blood Component Transfusion)

Mae Polisi IABT diwygiedig Cymru Gyfan bellach wedi'i gyhoeddi fel Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC/2023/039). Mae'r adolygiad hwn o'r polisi presennol, y cyfeiriwyd ato’n flaenorol fel NABT (Non-medical Authorisation of Blood Component Transfusion) yn parhau i ddiffinio'r gofynion ar gyfer ymarfer IABT yng Nghymru.

Mae gwneud y penderfyniad i drallwyso cyfansoddyn/cyfansoddion gwaed (neu beidio) yn golygu cael a defnyddio'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol i asesu anghenion y claf yn briodol, y dylid ei wneud yn unol ag egwyddorion rheoli gwaed cleifion. Bwriad y polisi IABT ydy hwyluso datblygu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol anfeddygol, fel y gallant wneud hyn yn ddiogel a gwella gofal cleifion.

I ddarllen y polisi yn WHC/2023/039 cliciwch yma ac am fwy o wybodaeth, cliciwch yma.

## Croeso i Dr Indu Thakur



Rydym yn croesawu Dr Indu Thakur MD MRCPH FRCPath Haematolegydd Pediatreg Ymgynghorol a fydd yn gweithio'n rhan-amser i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru. Yn ddiweddar, ymunodd Dr Indu Thakur â Thîm Iechyd Gwaed GGC fel arweinydd rheoli gwaed cleifion.

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i ddosbarthu ar ran y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol.

Mae croeso i chi ei anfon ymlaen at gydweithwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb.

I gael rhagor o wybodaeth neu ddiweddariadau, cysylltwch â'r Tîm Iechyd Gwaed: WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

Os nad ydych yn dymuno derbyn y cylchlythyr hwn rhagor, cysylltwch â: WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk